# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 24AIN TACHWEDD, 2015**

Lleoliad

**FIDEO GYNHADLEDD**

**Siambr Hywel Dda, Caernarfon - Dolgellau - Pwllheli**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 16 Tachwedd 2015)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**AELODAETH (15)**

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Gweno Glyn |
| E. Selwyn Griffiths | Sian Gwenllian |
| Annwen Hughes | Charles Wyn Jones |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Thomas G. Ellis |
| Jean Forsyth | Anne Lloyd Jones |

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Jason Humphreys |

### Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**4. COFNODION** 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2015 fel rhai cywir

**5. Y PWYLLGOR SAFONAU - ADRODD AR FAES GWAITH Y PWYLLGOR** 7 - 8

Derbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

**6. YMGYNHGORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** 9 - 10

Derbyn adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

**7. E-BOST CYNGHORWYR** 11 - 13

Derbyn adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

**8. GWE-DDARLLEDU** 14 - 18

Derbyn adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

**9. ADRODDIADAU BLYNYDDOL 2014 / 2015** 19 - 24

Derbyn adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

**10. ADRODDIAD DIWEDDARU IS-GRWP AMRYWIAETH** 25 - 33

Derbyn adroddiad Cadeirydd yr Is Grŵp Amrywiaeth

**11. SIARTER AELODAU - SWYDD DDISGRIFIADAU** 34 - 35

Derbyn adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD MAWRTH, 29 MEDI 2015

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Tom Ellis (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Lesley Day, Jean Forsyth a Jason Humphreys

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Lesley Day fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen – Ymgynghoriad i'r Cyfarwyddiadau Drafft gan Lywodraeth Cymru i'r Adolygiad gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - oherwydd bod nifer uchel o fyfyrwyr yn ei ward.

Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2015 fel rhai cywir.

## 3. YMGYNGHORIAD I'R CYFARWYDDIADAU DRAFFT GAN LYWODRAETH CYMRU I'R ADOLYGIAD GAN Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn nodi, fel rhan o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol, y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig. Gofynnwyd i'r pwyllgor gyflwyno eu sylwadau ar fanylion y Cyfarwyddiadau Drafft er mwyn eu pasio ymlaen i'r Cyngor llawn, gan hefyd annog eu cyd-aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad.

Yn ogystal ag ymateb i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad, trafodwyd y newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017 fyddai'n golygu lleihad tebygol o 75 aelod etholedig i 66 aelod. Er bod rhai aelodau'n gefnogol i hynny ar y sail bod yna ddiffyg cydbwysedd rhwng maint yr etholaethau presennol a'r gymhareb

cynghorwyr i etholwyr, bod y lleihad wedi'i nodi fel toriad posib' y bwriedir ceisio barn y cyhoedd yn ei gylch ac y byddai'n well bod rhan o'r newid wedi'i wneud yn 2017, ' roedd mwyafrif yr aelodau o'r farn y byddai newid tymor byr o'r fath yn anaddas gyda newid mor sylfaenol o ran ffiniau i ddilyn mor fuan yn sgil yr ad-drefnu.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor:-**

**(a) Gyflwyno'r sylwadau ar gynnwys y Cyfarwyddiadau Drafft i'r Comisiwn Ffiniau sydd wedi eu crynhoi yn Atodiad A i'r cofnodion hyn.**

**(b) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddatgan y farn y byddai'n anaddas gweithredu'r newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017 gyda newid mor sylfaenol o ran ffiniau i ddilyn mor fuan yn sgil yr ad-drefnu.**

## 4. DATBLYGIADAU TECHNOLEGOL

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau ar faterion technoleg gwybodaeth, gan gynnwys y newidiadau diweddar i systemau electroneg y Cyngor, hyfforddiant pellach ar yr i-pad a Moderngov.

Nododd yr Uwch Reolwr fod 12 aelod y tu allan i'r Cabinet wedi cyflwyno sylwadau yn sgil y newidiadau i systemau electroneg y Cyngor, a olygai mai trwy'r i-pad yn unig y gall aelodau gael mynediad i'w e-byst '*cynghorydd'* ar hyn o bryd, ac awgrymodd gysylltu'n ôl â'r aelodau hynny i sefydlu beth yn union yw eu hanghenion, ond os ydynt yn parhau'n anhapus, y dylid darparu trwydded ar eu cyfer.

Manylodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid ar y rhesymau diogelwch defnyddwyr dros weithredu'r newid i'r systemau electroneg. Eglurodd hefyd fod angen edrych ymhellach ar fynediad i e-byst oddi ar ffonau symudol gan nad oedd yn glir eto sut bod modd caniatáu hynny'n eang heb dramgwyddo rheolau diogelwch.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd aelodau at rai o'r anawsterau a wynebir yn sgil cyflwyno'r drefn newydd, sy'n cynnwys:-

- Anodd ymateb yn ysgrifenedig i ddogfen ymgynghorol.
- Dim 3G ar yr i-pad.
- Oes i-pad yn fyrrach nag oes cyfrifiadur?
- Datblygiad ac esblygiad parhaus y systemau Apple a Microsoft.
- Anhawster agor atodiadau.
- Methu defnyddio USB gyda'r i-pad.
- Straen llygaid.

Mewn ymateb i sylw gan aelod na chafodd yr aelodau rybudd bod y newid yn mynd i ddigwydd, nododd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni y cyhoeddwyd dwy neges yn Rhaeadr, sef y prif gyfrwng cysylltu â'r aelodau.

Mynegwyd anfodlonrwydd na chaniateid i'r aelodau ddefnyddio ail gyfrif e-bost ar wefan y Cyngor, ond awgrymodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod

hynny'n derbyn sylw ar wahân fel bod gan y pwyllgor yr holl wybodaeth berthnasol o'i flaen cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Ymatebodd y rheolwyr i rai o'r anawsterau a grybwyllwyd drwy nodi:-

- Y buddsoddwyd yn helaeth mewn hyfforddiant dros y misoedd diwethaf er mwyn ehangu gymaint â phosib' ar y defnydd o'r i-pad.
- Y dylai dyfodiad yr App Moderngov ddatrys llawer o'r rhwystrau, e.e. byddai dogfennau'n mynd yn syth ar y peiriant, heb orfod eu llawrlwytho.
- Bod yr i-pads yn sicr o barhau am weddill oes y Cyngor hwn, ond y byddai'n rhaid ystyried beth fydd yn digwydd adeg y Cyngor newydd yn 2017.
- Er nad yw'r i-pad yn gwneud popeth, ei fod yn gwneud llawer o bethau yn dda iawn.

O ran sylw bod aelodau'r Cabinet yn cael eu trin yn wahanol, eglurodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni fod achos busnes wedi'i gyflwyno ar ran aelodau'r Cabinet yn nodi eu bod angen mynediad a gweithio ar ddogfennau, ac ati, oherwydd eu cyfrifoldeb penodol, ond bod modd ymateb i'r achosion dros yr aelodau eraill hefyd.

Mynegodd rhai aelodau eu parodrwydd i dalu eu hunain am y drwydded er mwyn cael mynediad i'w e-byst oddi ar gyfrifiadur, ond eglurwyd y byddai hynny'n groes i ganllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar y peilot o hyfforddiant pellach ar yr i-pad gydag arbenigwr allanol, gan grynhoi sylwadau'r aelodau hynny fu ar yr hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Y dylai aelodau gael mynediad i'w e-byst oddi ar gyfrifiadur personol neu liniadur (ond nid ffôn symudol), os oes angen am hynny, a chynnwys nodyn i'r perwyl hynny yn Rhaeadr.**

**(b) Cysylltu â'r 12 aelod sydd wedi cyflwyno sylwadau yn sgil y newidiadau i systemau electroneg y Cyngor, ac ymateb i unrhyw aelodau pellach sy'n cyflwyno sylwadau, i sefydlu beth yn union yw eu hanghenion, ac os ydynt yn parhau'n anhapus, darparu mynediad iddynt i'w e-byst o gyfrifiadur personol neu liniadur (ond nid ffôn symudol).**

**(c) Datblygu'r hyfforddiant i-pads drwy:-**

- **Gynnig cwrs ffurfiol arall i aelodau eraill;**
- **Datblygu tîm o aelodau all hyfforddi a chynnig arweiniad i'w cyd-aelodau;**
- **Ystyried cynnig '*pages'* i'r rhai sydd wedi gweld yr ap, ac sy'n sicr y byddant yn gwneud defnydd ohono;**
- **Darparu taflenni gwybodaeth i'r aelodau ar sut i wneud gwahanol bethau gyda'r i-pad.**

## 5. IS-GRŴP AMRYWIAETH

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau ar waith yr Is-grŵp hyd yma a'r camau nesaf. Nodwyd y byddai'r is-grŵp

yn cyfarfod yn fuan i ystyried gweithredu'n lleol ar argymhellion cenedlaethol yn y maes.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 6. LWFANSAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau am benderfyniadau cyhoeddi tabl lwfansau aelodau ar gyfer y cyfnod 2014/15.

Holwyd a gafwyd hawl y Cadeirydd i fynd yn groes i benderfyniad y pwyllgor y tro diwethaf i gyflwyno gwybodaeth am y lwfansau yn Newyddion Gwynedd. Atebodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni y cymerwyd penderfyniad golygyddol i beidio cynnwys yr wybodaeth y tro hwn er mwyn rhoi'r flaenoriaeth i Her Gwynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU 2014/15

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15. Nododd ei bod wedi gobeithio cynnal trafodaeth yn y cyfarfod hwn ynglŷn â'r rhwystrau a'r cyfleoedd er mwyn hwyluso'r drefn at 2015/16, ond gan ei bod wedi mynd yn hwyr, awgrymodd roi'r mater gerbron y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD cynnal trafodaeth yn y cyfarfod nesaf ar y rhwystrau a'r cyfleoedd ar gyfer adroddiadau blynyddol aelodau yn 2015/16.**

## 8. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd – rhaglen waith y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y rhaglen waith.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm.

***Atodiad A***

***Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?***

**Na. Mae'r gymhareb yn gwbl anaddas ar gyfer ardal wledig a gwasgaredig. Ar hyn o bryd, mae cymhareb bresennol Gwynedd fel sir yn 1,089 gyda wardiau Gwynedd yn cynnwys rhwng 480 a 2,428 gyda'r ddau ward mwyaf yn rhai 2 aelod.**

**Mae ymagwedd sydd yn defnyddio cymhareb syml o ran y nifer o etholwyr yn codi pryder. Nid yw hynny'n rhoi unrhyw gydnabyddiaeth i'r llwyth gwaith sydd yn codi i gynghorwyr lleol yn sgil myfyrwyr sydd heb gofrestru fel etholwyr, poblogaeth dymhorol, yn sgil y diwydiant ymwelwyr a thai haf.**

**Mae hefyd yn mynd yn gwbl groes i gyfeiriad Llywodraeth Cymru a oedd, yn ei ddogfen ymgynghorol "Diwygio Llywodraeth Leol - Grym i Bobl Leol" yn son am bwysigrwydd "Llywodraethu Cymunedol a arweinir gan aelodau". Mae'n anodd gweld sut y gall cynghorwyr ymdopi â'r rôl heriol hon ar ben eu cyfrifoldebau sefydliadol fel aelodau pwyllgor ayb os byddant yn gwasanaethu etholaethau mor fawr.**

**Pe byddai symudiad o'r fath yn digwydd, byddai'n rhaid symud i drefn o gynghorwyr llawn-amser er mwyn medru ysgwyddo'r llwyth gwaith.**

***Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd? Os felly, beth yw'r isafswm a pham?***

**Mae angen isafswm ar gyfer democratiaeth effeithiol ond mae'r math o ffigurau a nodir yn llawer rhy isel. O fewn system Cabinet, gydag angen tua 10 aelod ar gabinet, mae gadael gweddill gwaith y Cyngor (Craffu, Archwilio, Cynllunio, Trwyddedu ayb) i nifer mor fychan o gynghorwyr yn gosod pwysau gwaith afresymol arnynt. Dylai'r isafswm aelodau fod yn o leiaf 45-50 aelod**

**Mae'r sylwadau uchod ar sail barn am lwyth gwaith y cynghorau presennol. Byddai hynny'n amlwg yn cynyddu'n arwyddocaol yn dilyn ad-drefnu mewn meysydd fel Cynllunio a Thrwyddedu, gyda chynnydd yn y nifer o geisiadau fyddai angen sylw.**

**Y mater arall i'w ystyried yw y gallai dyraniad seddau i grwpiau gwleidyddol fod yn fwy cymhleth ar gynghorau gyda niferoedd llai. Gallai fod yn fwy anodd llenwi seddau a gallai'r baich ar nifer fechan o gynghorwyr gynyddu.**

***Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?***

**Dylid, fel yr esboniwyd yn yr ateb i gwestiwn 2. Dylai'r Cyfarwyddiadau Drafft gydnabod anghenion llywodraethu rhedeg cyngor modern. Fodd bynnag, unwaith mae hynny wedi digwydd, dylid edrych ar bob cyngor ar wahân gan ystyried amgylchiadau pob cyngor yn unigol. Rhaid ystyried pellteroedd teithio (ar gyfer teithio i gyfarfodydd yn ogystal â theithio at etholwyr o fewn y ward) yn ogystal â'r angen i gael wardiau sydd yn adlewyrchu cymunedau naturiol.**

***Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol? Os felly, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?***

**Mae'n siŵr bod rhyw synnwyr mewn cael cap ond dylai hynny adlewyrchu'r ardal ar gyfer cyngor unigol.**

***Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?***

**Na. Mae natur wardiau unigol, hyd yn oed oddi fewn i ardaloedd cynghorau unigol mor amrywiol. O ganlyniad nid yw'n synhwyrol gwneud hynny. Mae'n gwbl briodol cael amrediad i ddibenion gwaith y Comisiwn Ffiniau ond byddai'n rhaid i'r Comisiwn gael y rhyddid i eithrio rhag hyn os yw natur cymuned naturiol yn golygu nad yw'n synhwyrol ei gynnwys gydag ardal arall.**

**Ar bwynt cysylltiol, argymhellir y dylid ceisio osgoi wardiau aml-aelod gan fod cael un aelod i ward yn symleiddio pethau i drigolion a chynghorwyr.**

***Cwestiwn 6: Pa effaith ddylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?***

**Dyma ddylai fod yn brif ystyriaethau a dylent fod yn ddylanwadol iawn. Os yw cynghorau i adlewyrchu eu hardaloedd yn iawn, dylai holl nodweddion yr ardal (poblogaeth, pellteroedd teithio, natur cymunedau naturiol ayb) gael effaith ar y penderfyniad**

***Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin? Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?***

**Cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin.**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad** | **24 Tachwedd 2015** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd 2014-15** |
| **Pwrpas** | **Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor** |
| **Awdur** | **Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith. Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Pwyllgor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

3. Mae rhai datblygiadau ynglŷn â gweithredu'r Cod Ymddygiad sydd yn werth tynnu sylw atynt yn benodol.

- Mae'r Ombwdsman wedi mabwysiadu prawf dau gam wrth bennu p'un a yw am ymchwilio neu barhau gydag ymchwiliad ynghylch torri'r Cod i'r pwynt o gyfeirio'r mater i Bwyllgor Safonau neu i Banel Dyfarnu Cymru. Yn y prawf dau gam newydd, yr ystyriaeth gyntaf fydd a oes tystiolaeth uniongyrchol o dorri'r cod. Os bodlonir y prawf tystiolaeth hwnnw, yna bydd yr Ombwdsmon yn bwrw ymlaen i ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad neu gyfeirio at Bwyllgor Safonau neu i Banel Dyfarnu Cymru er budd cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn amlinellu'r ffactorau budd cyhoeddus y bydd yn eu hystyried, sy'n cynnwys:-

  - Pa mor ddifrifol yw'r torri cod?
  - P'un a wnaeth Aelodau geisio budd personol iddyn nhw eu hunain neu rywun arall ar draul y cyhoedd.
  - A gamddefnyddiwyd safle o ymddiriedaeth neu awdurdod ac a achoswyd niwed i berson?
  - Ai gwahaniaethu oedd y cymhelliant i dorri'r cod?
  - A oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol gan Aelod?
  - A oes angen ymchwilio er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn Aelodau Etholedig?

    - A yw ymchwilio yn ymateb cymesur (sy'n debygol o arwain at gosb).

- Mae achosion Llys lled ddiweddar hefyd wedi rhoi goleuni pellach ar ffiniau'r Cod wrth ystyried sylwadau gan aelodau.  Cyfeirir at y materion hyn yn benodol yng nghyd-destun paragraffau  6(1)(a) - anfri a 4(b) - trin â pharch ac ystyriaeth. Yng nghanllawiau diwygiedig yr Ombwdsman  atgoffir Aelodau bod gofyn i Aelod gael "croen mwy trwchus" ac, oni bai bod sylwadau gwleidyddol yn hynod o sarhaus neu warthus, mae'n annhebygol o ymchwilio i gwynion a wneir gan Aelodau, p'un a yw hynny yn Siambr y Cyngor neu rywle arall. Ar y llaw arall, gellir ystyried beirniadaeth annheg ac anghywir o'r Awdurdod mewn arena gyhoeddus neu e-bost neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol sy'n amhriodol fel dwyn anfri ar swydd Aelod, a allai deilyngu ymchwiliad.

**Argymhelliad**

Derbyn yr adroddiad

**Dogfen Cefndir**

Canllawiau'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Mawrth 2015

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24 Tachwedd, 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **PWRPAS** | **Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyflwyno sylwadau** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sydd yn gyfrifol am bennu'r cyflogau a'r costau sydd yn daladwy i gynghorwyr yn rhinwedd eu dyletswyddau. Bob blwyddyn, mae'r Panel yn cyhoeddi cynigion drafft ac yn ymgynghori arnynt.

2. Fel arfer, nid oes llawer o destun trafod yn yr argymhellion gan ei fod yn cymryd agwedd gyffredin at y cyflogau a chostau a delir i bob cynghorydd ond eleni mae awgrymiadau sydd yn teilyngu sylw ar wahân.

3. Mae cynigion eleni yn cynnwys rhewi'r cyflogau sylfaenol a delir i bob aelod ar draws y bwrdd ond mae hefyd yn cynnig rhai materion penodol eraill, sef:-

   - **Is-Arweinydd** – Newid mewn cyflog Is-Arweinydd (lleihad o £150 yn achos Gwynedd)
   - **Aelodau Cabinet** – Dwy lefel o gydnabyddiaeth i aelodau'r Cabinet (heb gynnwys yr Arweinydd a'r Is-Arweinydd). Uchafswm o bedwar i dderbyn cyflog lefel 1 (£29,000 – y lefel bresennol) a phedwar i dderbyn cyflog lefel 2 (£26,100 – gostyngiad o 10%). Mae'r Panel yn nodi fod hyn yn ymateb i'r sefyllfa ar draws Cymru lle mae rhai Awdurdodau wedi dewis sefydlu cabinet llai na'r uchafswm o ddeg aelod, a'r ffaith fod aelodau wedi nodi fod anghysondeb yn maint y cyfrifoldebau.
   - **Cadeiryddion Pwyllgorau** (sy'n derbyn uwch gyflog) – Dwy lefel o gydnabyddiaeth ariannol i Gadeiryddion y Pwyllgorau perthnasol. Lefel 1 (£22,000 – y lefel gyfredol) a lefel 2 (£20,000). Cynghorau unigol i benderfynu pwy sydd i dderbyn pa lefel.
   - **Arweinydd yr wrthblaid fwyaf** – Lleihad yng nghydnabyddiaeth Arweinydd yr wrthblaid – lawr o £22,000 i £20,000, sy'n gyson gyda lefel 2 Cadeiryddion pwyllgor

4. Yn gyffredinol, mae gwrthwynebiad i'r cynigion hyn ar draws Cymru. Mae'r mater yn amlwg yn bwnc ar gyfer barn aelodau a nid swyddogion ond efallai bod rhai ystyriaethau ar ddau o'r cynigion y byddai'r pwyllgor yn dymuno rhoi sylw iddynt:-

   - Mae'r awgrym o wahaniaethu mewn cyflogau Aelod Cabinet yn ymddangos fel bae yn ymateb i faterion sydd yn codi mewn rhai cynghorau yn unig. Tybed, a yw gosod rheol haearnaidd o'r fath yn mynd i gyfyngu ar yr hyblygrwydd mewn cynghorau unigol i fod yn llunio portffolios sydd yn gwneud synnwyr yn yr amgylchiadau lleol arbennig? Byddai'r cyfyngiad arfaethedig ar yn union faint o

aelodau sydd yn cael derbyn cyflog lefel 1 yn gyfyngiad pellach ar hyblygrwydd cynghorau unigol. Problem arall fyddai yn ymarferol sut y gellir gwahaniaethu rhwng portffolios. Os mai'r pryder yw bod aelodau sydd ar gabinet bach yn dal mwy o gyfrifoldebau, posibilrwydd arall fyddai gosod cap ar y cyflogau i'r weithrediaeth a gadael y taliadau unigol i gynghorau unigol.

- Byddai pawb yn cydnabod bod rhai gwahaniaethau yn y cyfrifoldebau ar y cadeiryddion pwyllgor sydd yn derbyn uwch gyflog, pe bae ond o ran amlder cyfarfodydd, sydd yn amrywio yn sylweddol yng Ngwynedd. Yn sgil hynny, a gyda rhyddid i gynghorau benderfynu faint o gadeiryddiaethau sydd ar y ddau lefel, mae hyn yn ymddangos fel cynnig rhesymol.

5. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24ain Tachwedd 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **E-byst Cynghorwyr** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar y sefyllfa diweddaraf** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofyn i'r Pwyllgor gadarnhau y weledigaeth a'r penderfyniad gwreiddiol ar gyfer cyfeiriad e-byst Cynghorwyr.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Wrth baratoi at ddyfodiad y Cyngor newydd, bu i Fwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2012 ystyried y ddarpariaeth Technoleg gwybodaeth i aelodau. Bu iddynt fabwysidadu'r weledigaeth ar gyfer y Cyngor newydd, sef "*mai'r prif ddull o ohebu gydag Aelodau yw trwy'r defnydd o dechnoleg electroneg yn hytrach na phapur*".

1.2 Ar gyfer gweithredu'r weledigaeth, nodwyd:

"*Prif ddolen y gwasanaeth fydd cyfeiriad e-bost corfforaethol y Cyngor. Bydd yn orfodol i Aelod Etholedig dderbyn a defnyddio e-bost corfforaethol y Cyngor yn dilyn partwm cynghorydd.xxxxxxxx@gwynedd.gov.uk, ble bod "xxxxx" yn gyfystyr ag enw'r Aelod.* "

1.3 Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi y rhesymau pam bod angen defnyddio cyfeiriad corfforaethol Gwynedd ar gyfer gohebiaeth e-bost yn hytrach na chaniatau i aelodau ddefnyddio cyfeiriad e-bost personol. Roedd y rhesymau a nodwyd fel a ganlyn:

- Mae Cyngor Gwynedd yn gosod a dilyn camau diogelwch uchel er mwyn gwarantu cydymffurfiad a rheolau "Government Connect – Code of Connection (CoCo)". Golyga hyn bod y cyfeiriad e-bost yn cael ei gynnal gyda chyfundrefn ac o dan reolaethau sydd wedi derbyn sêl bendith yr archwilwyr.
- Mae cyfeiriad e-bost cynghorydd.xxxxxxxxx@gwynedd.gov.uk yn rhan o frand y Cyngor ac yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ymfalchïo drwy weithredu dan yr un faner a staff y Cyngor.
- Nid oes unrhyw warant o ddiogelwch gyda defnydd o e-bost personol, yn enwedig os yw'r e-bost yn un cyffredinol ar gyfer y teulu i gyd.
- Fe ddylai'r cyfeiriad e-bost fod yn glir i bwy mae'r neges yn cael ei yrru. Tydi e-bost personol megis ty_ni@btinternet.com ddim yn cyfleu hyn, ble bod confensiwn enwi yr e-bost corfforaethol yn gwbl glir e.e. cynghorydd.iolaevans@gwynedd.gov.uk. Mae'r cyfeiriad yn dangos yn glir mai enw'r derbynnydd ydi Iola Evans, a'i bod yn Gynghorydd yng Ngwynedd.
- Does dim cost weinyddol na gweithredu i'r Aelod ar gyfer sefydlu cyfeiriad e-bost
corfforaethol gyda Cyngor Gwynedd.
- Mae cefnogaeth lawn dwy ieithog ar gael rhwng 08:00 a 17:00 ar gyfer y gwasanaeth corfforaethol, gyda'r staff yn mynd y filltir ychwanegol i wneud yn siŵr bod y cwsmer yn cael y gwasanaeth orau bosib.
- Mae'r wybodaeth sy'n cael ei yrru a'i dderbyn drwy gyfrwng e-bost corfforaethol yn cael ei wneud yn gwbl gyfrinachol. Er bod y wybodaeth yn

cael ei gadw yng Nghanolfan Ddata'r Cyngor yn y Pencadlys yng Nghaernarfon, nid oes gan swyddogion y Cyngor fynediad i'r wybodaeth.

- Dim ond cyfeiriad swyddogol corfforaethol fydd yn cael ei hysbysu ar wefan y Cyngor.
- Dim ond cyfeiriad swyddogol corfforaethol fydd yn cael ei hysbysu ar gyfarwyddiadur mewnol y Cyngor. Ni fydd cyfeiriadau personol yn cael ei hysbysu ar y cyfarwyddiadur

1.4 Yn ogystal, mae gohebu yn eletroneg yn arwain at leihad mewn gofynion argraffu, sy'n golygu arbediad ariannol sylweddol i'r Cyngor, ac ar yr un pryd yn cynorthwyo arbed yr amgylchedd. Adroddwyd i'r Cyngor Llawn yng Nghorffennaf 2014 fel a ganlyn:

*"Ers cyflwyno'r iPad i Aelodau, mae arbedion o dros £17,000 y flwyddyn wedi'u gwneud yng nghyllideb y Gwasanaethau Democrataidd yn unig, gydag arbedion pellach wedi'u gwneud yng nghyllidebau adrannau unigol. Mae posibilrwydd o wneud £5,000 o arbediad blynyddol pellach os yw aelodau'n parhau i ddefnyddio'r iPad yn lle copïau papur."*

## 2. SEFYLLFA 2015/16

2.1 Mae'r sefyllfa wedi bod yn eithaf cadarnhaol dros y blynyddoedd, gyda thrwch yr Aelodau yn defnyddio eu cyfeiriad e-bost swyddogol ar gyfer derbyn gohebiaeth gan y Cyngor yn gyflym trwy ddull electroneg.

2.2 Fodd bynnag, mae dau fater wedi codi yn lled diweddar ynghylch defnydd o e-bost swyddogol/ e-bost personol.

2.3 Yn gyntaf, mae wedi dod i'r amlwg fod nifer fechan o Aelodau sydd â chyfeiriad e-bost swyddogol y Cyngor heb fod yn defnyddio'r cyfeiriad o gwbl. Mae enghreifftiau diweddar o gyfrifon wedi eu cau gan system y Cyngor gan nad yw'r cyfeiriad e-bost wedi ei ddefnyddio am gyfnod hwy na 12 mis.

2.3 Rydym yn ymwybodol o ddewis unigolion i beidio defnyddio'r cyfeiriad e-bost swyddogol mewn un neu ddau o achlysuron, ac rydym wedi gweithredu i wneud trefniadau amgen i dderbyn copiau papur yn yr achosion hynny.

2.4 Fodd bynnag, nid oeddem yn ymwybodol o'r holl achosion. Cymerwyd yn ganiataol, gan fod darpariaeth llechen y Cyngor gan yr Aelodau hynny, eu bod yn cael eu defnyddio i dderbyn gohebiaeth swyddogol. Mae hyn yn creu cryn bryder gan fod Aelodau etholedig felly, yn ddiarwybod i ni, heb fod yn derbyn gohebiaeth pwysig gan y Cyngor i'w galluogi fel Aelodau i fod yn gweithredu yn effeithiol yn eu rol.

2.5 Yn ail, mae nifer fechan o Aelodau etholedig wedi gwneud cais i fod yn derbyn gohebiaeth drwy gyfeiriadau e-bost personol. Nid ydym wedi caniatau hyn hyd yma gan ein bod yn dilyn y penderfyniad gwreiddiol oherwydd y rhesymau a nodwyd yn 1.3 uchod.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Gwahoddir y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gadarnhau penderfyniad gwreiddiol y Cyngor ynghylch gweledigaeth a chyfeiriadau e-bost swyddogol Cynghorwyr.

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24 Tachwedd, 2015** |
| **PWNC** | **Gwe-ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1. Mae System Gwe-ddarlledu y Cyngor bellach wedi bod yn llawn weithredol ers Ionawr 2015.

2. Er mwyn paratoi at y gwe-ddarlledu cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi:

   - 26 Tachwedd 2014 - Sesiwn hyfforddi y gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor iddo. Roedd 41 yn bresennol yn cynnwys rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau.
   - 12 Ionawr 2015 - Hyfforddiant gwe-ddarlledu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion

3. Yn y sesiynau esboniwyd y rhesymeg dros gyflwyno'r system, adnabuwyd rhai o'r risgiau sydd ynghlwm â'i weithredu, trafodwyd canllawiau ymddwyn a rhai posibiliadau eraill o ran newid trefniadau cyfarfodydd y Cyngor.

4. Cytunwyd ar ganllawiau syml ar gyfer defnydd aelodau. Dosbarthwyd rhain ar gyfer y cyfarfodydd cyntaf a oedd yn cael eu gwe-ddarlledu. Mae'r canllawiau hynny ynghlwm fel Atodiad A.

5. Bellach, mae'r Cyngor wedi gwe-ddarlledu 23 o'i gyfarfodydd. Ar adeg llunio'r adroddiad roedd y wybodaeth am y ffigurau gwylio fel a ganlyn:-

| Pwyllgor | Dyddiad | Gwylwyr Archif | Gwylwyr Byw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio | 12/01/2015 | 458 | 175 | 633 |
| Cabinet | 13/01/2015 | 182 | 71 | 253 |
| Craffu Gwasanaethau | 12/02/2015 | 132 | 14 | 146 |
| Cabinet | 19/02/2015 | 139 | 88 | 227 |
| Craffu Cymunedau | 24/02/2015 | 191 | 19 | 210 |
| Cyngor | 05/03/2015 | 240 | 119 | 359 |
| Cynllunio | 23/03/2015 | 111 | 27 | 138 |
| Craffu Gwasanaethau | 16/04/2015 | 47 | 14 | 61 |
| Cyngor | 14/05/2015 | 68 | 5 | 73 |
| Cabinet | 19/05/2015 | 39 | 6 | 45 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cabinet | 02/06/2015 | 34 | 5 | 39 |
| Cynllunio | 15/06/2015 | 83 | 3 | 86 |
| Cabinet | 23/06/2015 | 30 | 3 | 33 |
| Cyngor | 09/07/2015 | 88 | 3 | 91 |
| Cabinet | 14/07/2015 | 94 | 2 | 96 |
| Cabinet | 30/07/2015 | 216 | 59 | 275 |
| Cynllunio | 07/09/2015 | 95 | 33 | 128 |
| Cabinet | 15/09/2015 | 115 | 0 | 115 |
| Craffu Gwasanaethau (am) | 22/09/2015 | 55 | 14 | 69 |
| Craffu Gwasanaethau (pm) | 22/09/2015 | 41 | 19 | 60 |
| Cabinet | 06/10/2015 | 45 | 3 | 48 |
| Cyngor | 08/10/2015 | 165 | 52 | 217 |
| Cabinet | 03/11/2015 | 9 | 12 | 21 |

6. Gellir gwylio’r gwe-ddarllediad yn fyw ar safle we’r Cyngor yn ystod y cyfarfod, neu bydd ar gael yn yr archif o fewn 48 awr i’r darllediad byw, am gyfnod o hyd at 6 mis. Dyma’r cyfeiriad ar gyfer gwylio:

   http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home

7. Noder fod yr helyw o’r gwylio yn digwydd trwy’r safle archif yn hytrach na gwylio darllediadau byw. Felly, er bod y ffigurau yn gywir ar yr amser cyhoeddi yr adroddiad, mae’r ffigurau nodwyd yn debygol o gynyddu.

8. Mae’n werth nodi bod y drefn ar gyfer peidio â chyfieithu mewn cyfarfodydd lle nad dderbyniwyd cais am gyfieithiad wedi bod yn weithredol. O ganlyniad i hyn, dros y cyfnod, cynhaliwyd 5 o’r 23 cyfarfod lle nad oedd cyfieithiad yn cael ei ddarparu gan nad oedd unrhyw un di-Gymraeg yn bresennol ac na dderbyniwyd cais i wylio a gwrando yn y Saesneg.

**CYMRYD STOC**

9. Gan ein bod yn agosau at ddiwedd blwyddyn galendr gyntaf y gwe-ddarllediadau, mae’n briodol cymryd stoc ar y profiad er asesu i ba raddau y mae’r Cyngor am barhau gyda’r drefn o’r flwyddyn nesaf ymlaen.

10. Nodir yma rai ystyriaethau i ddibenion hybu trafodaeth:-

   - Mae’r nifer sydd wedi bod yn gwylio yn gymharol fach, o gymharu gyda ffigurau rhai cynghorau eraill er bod gwahaniaethau amlwg rhwng cyfarfodydd
   - Mae llawer eto y gellir ei wneud i gynyddu diddordeb yn y gwe-ddarllediadau

- Mae cyfleon i aelodau unigol wneud defnydd o'r gwe-ddarllediadau i adrodd i etholwyr am waith y Cyngor
- Mae arolwg diweddar o farn cynghorau eraill wedi amlygu gwahaniaeth barn am werth parhau efo'r ddarpariaeth.
- Mae cyswllt rhwng y ddarpariaeth fideo a'r gallu i gynnig mynychu o bell mewn cyfarfodydd – allai arbed peth costau i'r Cyngor
- Mae cost ariannol ynghlwm a pharhau â'r gwasanaeth ond mae'n ymddangos bod modd cyfarch peth ohono trwy ail-gyfeirio adnoddau presennol, yn cynnwys galluogi fwy o aelodau i fynychu o bell

11. Gwahoddir barn y Pwyllgor o ran y bwriadau i'r dyfodol

ATODIAD A

**GWE-DDARLLEDU – RHAI CWESTIYNAU I I AELODAU**

**A. Paratoi ar gyfer y cyfarfod**

- A wyf wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod ac yn glir am y pwyntiau / cwestiynau yr wyf am eu codi?
- A wyf wedi meddwl os yw fy ymddangosiad yn cyfleu delwedd briodol ac addas?
- A wyf wedi cofio diffodd fy ffon symudol cyn i'r cyfarfod ddechrau i osgoi ymyrryd â'r signal?

**B. Yn y cyfarfod**

**1. Cais i siarad:-**

Dylwn gofio bod y drefn yn y ddwy siambr yn wahanol:-

- Yn Siambr Dafydd Orwig, rwyf yn gwagu'r botwm "cais i siarad" a wedyn yn disgwyl am wahoddiad y Cadeirydd i gyfrannu
- Yn Siambr Hywel Dda, rwy'n ceisio tynnu sylw'r Cadeirydd trwy godi fy llaw, yn disgwyl am wahoddiad y Cadeirydd i gyfrannu, yn troi fy meicroffon ymlaen i siarad ar ôl derbyn gwahoddiad i siarad a wedyn yn ei ddiffodd ar ôl gorffen

DS Bydd sedd gosod ar fy nghyfer yn Siambr Hywel Dda ond gallaf symud yn Siambr Dafydd Orwig os wyf yn mynd â fy ngherdyn gyda mi.

**2. Wrth siarad**

- A wyf yn siarad bellter rhesymol oddi wrth y meicroffon? (ddim yn rhy agos, ddim yn rhy bell)
- A yw tôn fy llais yn ddiddorol a rhesymol?
- A wyf yn ail-adrodd yr hyn y mae rhywun arall wedi gwneud yn barod?
- A wyf yn mynd yn rhy emosiynol am fy mod yn teimlo'n gryf ar fater a bod peryg y gwnaf ddweud rhywbeth y bydd yn edifar gennyf amdano?
- A wyf yn siarad yn eglur ac ar y cyflymder iawn heb ruthro'n ormodol fel bod rhywun sy'n gwrando (yn cynnwys cyfieithydd) yn cael trafferth fy nilyn?

**3. Wrth wrando**

- A wyf yn dangos parch at siaradwyr eraill, yn arbennig felly rhai sydd â safbwynt wahanol?
- A wyf yn gwrando'n iawn ac yn talu sylw i'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell gyfarfod, yn arbennig felly os wyf o fewn "shot" camera'r siaradwr ar y pryd?
- A wyf yn cael fy ngweld yn gwrando neu a wyf yn sibrwd gyda rhywun ar fater arall neu'n mynd allan am baned neu sgwrs?
- A wyf yn "chwarae" gydag unrhyw beth (llechen, biro neu declyn arall) allai dynnu sylw?

**C. Ar ôl y cyfarfod**

- A wyf yn medru dysgu unrhyw beth am fy nelwedd gyhoeddus wrth ail-wylio'r gwe-ddarllediad?
- A wyf yn medru defnyddio'r gwe-ddarllediad i ledaenu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei drafod yn y Cyngor?

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24ain Tachwedd 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiadau Blynyddol Aelodau (2014/15)** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Aelodau am yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15 a chynnal trafodaeth buan am y cyfleon a'r rhwystrau at 2015/16** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r rheidrwydd sydd ar y Cyngor i wneud trefniadau i aelodau fedru cynhyrchu adroddiad blynyddol os ydynt yn dymuno. Pwrpas yr adroddiadau yw cefnogi cyfathrebu rhwng aelodau etholedig a'r cyhoedd, a hynny trwy gyflwyno gwybodaeth ffeithiol o weithgareddau.

1.2 Un ffactor pwysig i'w gadw mewn cof yw'r cyswllt rhwng yr adroddiadau blynyddol a'r papur gwyn a drafodwyd yn ddiweddar. Roedd y papur gwyn yn ymgynghori ar newid statws adroddiadau blynyddol i fod yn statudol. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddo gytuno y dylai cyhoeddi adroddiadau o'r fath fod yn fandadol ar bob aelod; cytunodd y Cabinet â'r farn honno a dyna bellach farn gyhoeddus y Cyngor sydd wedi ei gyfleu i Lywodraeth Cymru.

1.3 I atgoffa'r Aelodau, mae'r canllawiau gwreiddiol a dderbyniwyd wedi eu cynnwys yn **Atodiad A**.

**2. ADRODDIADAU 2014/15**

2.1 Tros y blynyddoedd diwethaf mae'r niferoedd Aelodau etholedig sydd wedi dewis cyhoeddi adroddiadau blynyddol wedi cynyddu:

2012/13 8 adroddiad (peilot o'r drefn)
2013/14 26 adroddiad (gan ddefnyddio templed y tro cyntaf)
2014/15 39 adroddiad

2.2 Bellach, mae'r adroddiadau wedi eu cyhoeddi ar safle we y Cyngor.

2.3 Wrth i Aelodau lunio eu hadroddiadau, derbynniwyd un neu ddau o sylwadau sydd wedi eu crynhoi isod.

- <u>Templed ar gyfer yr adroddiadau.</u>
  Roedd rhai Aelodau yn teimlo fod y templed yn rhy gaeth ac yn eu gorfodi i gynhyrchu adroddiad mewn modd llai lliwgar na'r hyn y byddent yn ei gynhyrchu yn naturiol ee rhywfaint o liw a lluniau. Nodwyd hefyd fod rhai yn anghyfforddus gyda'r gwaith golygu sy'n digwydd o dro i dro ar adroddiadau, ond mae dyletswydd ar y Cyngor i fod yn eu golygu yn unol â'r canllawiau uchod.

- <u>Templed yn cynnwys tabl nifer o bwyllgorau</u>.
  Roedd rhai o'r Aelodau o'r farn nad oedd y templed cyfredol yn cynnig cyd-destun digonnol i'r darllenydd, gan mai nodi nifer y pwyllgorau a'r % yn unig y

mae.  Mae rhai wedi awgrymu y dylid cynnwys niferoedd yn bresenol, nifer yn absenol/ wedi ymddiheuro, cyfanswm, ac yna nodi'r canran.

- Data yn y tabl nifer y pwyllgorau.
  Cafwyd peth rhwystredigaeth fod y data a gyhoeddwyd yma yn anghywir. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddynt benderfynu fod angen cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd paratoi a fforymau ardal yn y tabl, ond roedd hynny ar ol i'r templed gwreiddiol gael ei yrru allan.  I'r dyfodol, rydym yn gobeithio y bydd Modern Gov yn gallu hwyluso gydag adrodd y wybodaeth yma.

- Amserlen.
  Aelodau yn adrodd ei bod yn anodd cofio yn ol beth sydd wedi digwydd tros y flwyddyn diwethaf a cheisio adrodd hynny ym Mehefin/ Gorffennaf.  Un posibilrwydd fyddai i Aelodau ystyried cadw dyddiadur, a chyflwyno eu hadroddiadau erbyn Mai y flwyddyn ganlynol.  Hefyd, pe cymeradwywyd y templed ynghynt, byddai modd ei ddosbarthu i Aelodau fel bod modd iddynt gofnodi materion wrth iddynt ddigwydd yn ystod y flwyddyn.  Gellid ychwanegu y data presenoldeb wedyn.

**3.0 ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y sylwadau uchod a chynnig sylwadau agoriadol ar y drefn tra fo pethau'n ffres yn y cof, er mwyn hwyluso y drefn at 2015/16.

## ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU O AWDURDOD LLEOL

### Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn cynnwys darpariaethau a fwriadwyd i gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o'r Rhan honno'n ymwneud â'r gefnogaeth a roddir i aelodau o awdurdod lleol ac mae adran 5 o'r bennod honno'n cyfeirio at baratoi adroddiadau blynyddol ar gyfer yr aelodau hyn. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adran 5(4) o'r Mesur. Mae'r canllawiau yn ymwneud â threfniadau awdurdodau lleol i lunio adroddiadau blynyddol.

### Yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Mesur

Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (awdurdodau lleol) sicrhau bod pob un o'u haelodau etholedig yn gallu llunio adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau fel aelod o'r cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae hyn yn cynnwys galluogi unrhyw aelod o weithrediaeth y cyngor i adrodd ar ei weithgareddau fel aelod o'r weithrediaeth. Rhaid i'r cyngor dan sylw gyhoeddi unrhyw adroddiadau y bydd aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn eu llunio. Gall yr awdurdod lleol bennu amodau/terfynau ar yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn adroddiad.

Rhaid i'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol, ac wrth wneud y trefniadau hynny, rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau hyn.

### Canllawiau

Dyletswyddau awdurdod lleol - Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau sy'n galluogi ei aelodau i lunio adroddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo ddweud wrth ei aelodau sut i'w llunio ac erbyn pryd i'w llunio.

Mae'r Mesur, yn adran 8 a'r adrannau sy'n dilyn, yn nodi mai'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, fel y'u diffinnir yn adran 9. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i roi cymorth a chyngor i aelodau i'w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau, ac mae trefnu proses yr adroddiadau blynyddol yn perthyn i'r categori hwn. Mae'r Mesur yn atal y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd rhag rhoi cymorth a chyngor i aelod yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau gweithredol fel aelod o weithrediaeth. Er hynny, nid yw llunio adroddiad blynyddol yn swyddogaeth weithredol ynddi'i hun, hyd yn oed os yw'n cyfeirio at weithgareddau'r cynghorydd fel aelod o'r weithrediaeth. Rhagwelir y bydd yr adroddiadau blynyddol cyntaf yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2013 fan bellaf.

### Cyhoeddi adroddiadau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Disgwylir i'r awdurdod gynnwys dolen i adroddiadau blynyddol yr aelodau, o leiaf, a hynny ar y rhan honno o wefan yr awdurdod sy'n dangos manylion aelodau unigol. Nid oes disgwyl i'r awdurdod drefnu unrhyw gyhoeddusrwydd y tu hwnt i hyn,

ac os yw'n penderfynu rhoi cyhoeddusrwydd pellach i'r adroddiadau, dylai ofalu ei fod yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer pob aelod. Felly, os bydd aelod yn gofyn i awdurdod roi mwy o gyhoeddusrwydd i'w adroddiad, dylid gwrthod y cais hwnnw oni bai fod mwy o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i adroddiad pob aelod.

Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod eu gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau blynyddol a sut y gall aelodau'r cyhoedd eu gweld.

**Cynnwys yr adroddiadau**

Prif bwrpas yr adroddiadau yw galluogi aelodau'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol. Gall awdurdodau lleol roi eu cyfyngiadau eu hunain ar gynnwys adroddiadau. Dim ond gwybodaeth ffeithiol y dylai adroddiadau blynyddol ei chynnwys. Mae hynny'n awgrymu mai gwybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau ac ati a fynychwyd gan y cynghorydd y dylid ei chynnwys yn bennaf, ynghyd ag unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu. Er y gallai fod yn dderbyniol cynnwys gwybodaeth fod aelod "wedi gwneud sylwadau ar ran yr ymgyrch i achub yr ysbyty lleol yn y ffyrdd canlynol", ni fyddai'n dderbyniol dweud fod aelod "wedi llwyddo i achub yr ysbyty lleol yn sgil ei ymdrechion ar ran ei etholwyr."

Yn yr un modd, dylid osgoi cynnwys gwybodaeth mewn adroddiadau yn ymwneud â gweithgareddau a gwblhaodd yr aelod y tu hwnt i'w rôl fel cynghorydd. Felly, er y byddai'n dderbyniol cynnwys gwybodaeth am araith a roddodd aelod mewn cynhadledd yr oedd yn ei mynychu yn rhinwedd ei rôl yn y cyngor, ni fyddai'n dderbyniol cyfeirio at araith a roddodd mewn cynhadledd plaid wleidyddol, er enghraifft, ac yntau yno fel cynrychiolydd cangen leol ei blaid.
Dylid gofalu hefyd nad yw'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei dehongli fel beirniadaeth o aelod arall. Er enghraifft, ni fyddai'n dderbyniol i aelod gymharu ei bresenoldeb neu ei weithgareddau â rhai aelod arall neu aelodau eraill.

Awgrymir y dylid cynnwys yr eitemau safonol canlynol:
- Rôl a chyfrifoldebau – gan gynnwys manylion aelodaeth o bwyllgorau a chyrff allanol, cofnodion presenoldeb yn y rhain ac yn y cyngor llawn.
- Gweithgarwch lleol – manylion unrhyw gymorthfeydd a gynhaliwyd a sylwadau a wnaed ar ran etholwyr, a chanlyniadau'r rhain.
- Prosiectau mawr – manylion unrhyw fentrau neu brosiectau lleol, sirol neu ranbarthol y bu'r aelod yn rhan ohonynt.
- Dysgu a datblygu – manylion digwyddiadau hyfforddi a datblygu a fynychwyd neu a ddilynwyd, a chynadleddau a seminarau a fynychwyd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd:** **Grŵp:**

**Ward:**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**

**Gweithgareddau etholaethol:**

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

Canran Presenoldeb:

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd:**
**-**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
*e.e. Fforwm Craffu*
*Ymchwiliad Craffu*
*Gweithdy Cynllun Strategol*
*Gweithdy Arbedion*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
*e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
*Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru*
*Ysgol Hirael (Llywodraethwyr Ysgol)*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**
*e.e. Cyd-Gyfarfod Swyddogion Cefnogi*
*Aelodau / Arweinyddion Cefnogi Aelodau*
*Ymddiriedolaeth Prawf Gogledd Cymru*

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

| **Ychwanegol** |
|---|
| |
| |
| |

Cyfanswm nifer o oriau:

# Eitem 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24 Tachwedd, 2015** |
| **PWNC** | **Is-grwp Amrywiaeth** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru Aelodau y Pwyllgor ar waith yr is-grwp amrywiaeth a chyflwyno y rhaglen waith.** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Tom Ellis<br>Cadeirydd Is-grwp Amrywiaeth** |

**CEFNDIR**

1.1 Sefydlwyd yr Is-grŵp amrywiaeth ym mis Chwefror 2015 mewn ymateb i adroddiad cenedlaethol ac arweiniad yn Neddf Llywodraeth Leol (2012) i geisio cynyddu amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

1.2 Bwriad yr is-grŵp oedd edrych ar sefyllfa Gwynedd yn gyfredol gan gymharu proffil aelodau etholedig y Cyngor gyda phroffil y Sir i weld a oeddent yn gymharol. Bu'r grŵp yn edrych ar ystadegau am oedran, rhyw, cefndir ethnig ac anabledd.

1.3 Yn dilyn dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil i'r maes, lluniwyd rhaglen waith i geisio gwneud rhywfaint o wahaniaeth ar gyfer etholiadau 2017.

**Y GWAITH HYD YMA**

2.1 Mae'r is-grŵp wedi cwrdd ambell waith dros y misoedd diwethaf ac wedi dadansoddi'r data ystadegol sydd i law am y pedwar maes. Penderfynwyd fel a ganlyn:

<u>Cefndir ethnig:</u> anghysonder bychan rhwng proffil y Cyngor a'r Sir, ond ddim yn flaenoriaeth i gael sylw gan y grŵp. Angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

<u>Anableddau:</u> Anodd dadansoddi gan fod data am y maes yn anodd i'w gael. Pencampwr Anableddau Gwynedd wedi nodi fod gwaith yn digwydd yn y maes yn gyfredol. Dim cynllun penodol gan y grŵp, ond fel uchod, angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

<u>Rhyw:</u> Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir – gweler graff yn **Atodiad A**. Cynllun gwaith wedi ei lunio (gweler isod)

<u>Oedran:</u> Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir - eto gweler graff **Atodiad A**. Gwaith yn mynd rhagddo yn hyrwyddo dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor ac aelodau etholedig trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Y

grŵp yn awyddus i beidio dyblygu, felly penderfynwyd bwydo unrhyw syniadau gan y grŵp trwy'r Aelod Cabinet i'r Bartneriaeth eu gweithredu lle'n bosib.

2.2 Yn ogystal, bu i'r grwp edrych ar rhywfaint o waith pellach ynghylch rhwystrau rhag sefyll i fod yn aelod etholedig, gwaith ymchwil cenedlaethol yn seiliedig ar wybodaeth gan gyn-aelodau ar draws Cymru i'r rhwystrau a'r cyfleon gwella, a'r rhaglen waith cenedlaethol sydd newydd ei lansio.

2.3 Defnyddiwyd y wybodaeth uchod i gyd wrth geisio mynd ati i lunio rhaglen waith ddrafft bosib ar gyfer y camau nesaf.

**CAMAU NESAF**

3.1 Cyflwynir y rhaglen waith ddrafft i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn **Atodiad B**. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y rhaglen waith ddrafft a'i gefnogi.

3.2 Fe welir o'r rhaglen ddrafft fod elfennau sydd yn gofyn am fewnbwn gan aelodau a'r pleidiau gwleidyddol. Os yw'r pwyllgor yn awyddus i gefnogi'r cynllun, yna byd yn ofynnol sicrhau mewnbwn gan yr holl aelodau.

3.3 Yn ogystal, fe welir o'r rhaglen waith ddrafft y nodir awgrymiadau lle gall partneriaid ein cynorthwyo i hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth trwy weithredu mewn gwahanol feysydd ee Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Clybiau Ieuenctid a'r Brifysgol ayyb Bydd angen cynnal trafodaethau gyda'r partneriaid hyn yn awr er mwyn sicrhau y ffordd ymlaen. .


3.4 Mae'r Is-grwp yn gweld y rhaglen waith fel un byw y gellir ei addasu neu ychwanegu ato wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaenau, er enghraifft yn dilyn y gwaith arfaethedig efo grwp ffocws am yr hyn sydd yn rwystr i bobl gynnig eu hunain ar gyfer sefyll etholiad.

3.5 Mae paratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cyngor, sydd ym Mai 2017, hefyd yn allweddol. Bydd angen i'r is-grŵp o'r Pwyllgor ystyried, maes o law, beth fydd y mecanwaith gorau ar gyfer cyflwyno unrhyw adolygiadau neu gynigion mewn da bryd i baratoi ar gyfer yr etholiadau hynny.

3.6 Ceisir barn y Pwyllgor ar y rhaglen waith ddrafft.

## ATODIAD A

Mae'r graff isod yn darlunio gwybodaeth, fesul grwp oedran, am broffil poblogaeth Gwynedd a phroffil aelodau Gwynedd fesul rhyw.  Cyflwynir er gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.




*Data yn gywir Chwefror 2015*

Aelodaeth gyfredol y Grwp

| **Cynghorwyr** | **Rol** |
|---|---|
| Tom Ellis | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Sian Gwenllian | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Sion Jones | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Peter Read | Pencampwr Anableddau |
| Gwen Griffith | Pencampwr Amrywiaeth |
| Mair Rowlands | Pencampwr Plant a Phobl Ifanc |

# RHAGLEN WAITH – HYBU AMRWYIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

**Atodiad B**

| | BETH ydych am wneud? | SUT? | PWY fydd yn gwneud y gwaith? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| RÔL GRWPIAU GWLEIDYDDOL MEWN HYRWYDDO AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH | | | | |
| 1 | Addysgu pobl a grwpiau mwyaf ymylol yn wleidyddol am rolau gwahanol aelodau etholedig | Codi ymwybyddiaeth aelodau unigol drwy gynnal trafodaethau ar amrywiaeth yn y Fforymau Ardal | Is-grŵp amrywiaeth | Rheolaidd |
| | | Sicrhau bod aelodau etholedig sydd yn bwriadu sefyll lawr yn annog pobl o'r grwpiau mwyaf sydd ddim fel arfer yn cael eu cynrychioli i ymgeisio am y seddi hynny | Grwpiau gwleidyddol | Rheolaidd |
| | | Rhaglen i baratoi ymgeiswyr posib ar gyfer sefyll etholiad efo gwybodaeth am y Cyngor, rôl cynghorydd a'r cymorth a chefnogaeth sydd ar gael yn cynnwys mentora ar ôl ethol | Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Uned Etholiadau | Ionawr 2017 |
| RÔL AELODAU MEWN HYRWYDDO AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH | | | | |
| 2 | Mentora | Defnyddio Rhaglen Fentora Llywodraeth Cymru - aelodau unigol i gysylltu gyda Llywodraeth Cymru i gofrestru. | Aelodau unigol | Parhaus |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyn etholiad - Aelodau i adnabod unigolion o grwpiau mwyaf ymylol yn wleidyddol, eu hannog a rhoi arweiniad iddynt ar sut i fynd ati i geisio am sedd etholiad lleol. | Aelodau unigol | |
| 3 | Rhannu Dogfen Llywodraeth Cymru: Amrywiaeth Mewn Democratiaeth i bob aelod. | Rhannu dogfen Llywodraeth Cymru: Amrwyiaeth Mewn Democratiaeth i bob aelod. | Is-grŵp amrywiaeth | 2015/16 |
| 4 | Ymgysylltu â phobl Gwynedd trwy wahanol ddulliau | Codi ymwybyddiaeth ein haelodau i brotocolau ymgysylltu y Cyngor.<br><br>Defnyddio - cyfryngau cymdeithasol gan dargedu ardaloedd penodol a phobl / oedran penodol, papurau lleol a Chynghorau Cymuned.<br><br>Cynnal grŵp ffocws o blith aelodau'r Panel Dinasyddion i gael gwybodaeth am y math o bethau allai fod yn rhwystr i bobl sefyll etholiad Cyngor - gyda golwg ar ddatblygu rhaglen waith bellach | Is-grŵp amrywiaeth | Parhaus |
| HYBU PAWB I GYMRYD RHAN MEWN DEMOCRATIAETH | | | | |
| 5 | Defnyddio cyfryngau cymdeithasol | Hysbysebu seddi gwag drwy ddulliau modern a hysbysebu swyddi gwag Llywodraethwyr, mudiadau a gwirfoddolwyr yn ehangach | Uned Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Parhaus |

DRAFT

# RHAGLEN WAITH – HYBU AMRWYIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Edrych ar ddefnyddio gwefan Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth a Phorth Menywod Mewn Bywyd Cyhoeddus | Uned Etholiadau<br><br>Adran Addysg / Llywodraethwyr Ysgolion; Cyrff Allanol a Chynghorau Cymuned gyda Cefnogaeth Gorfforaethol fel y prif bwynt cyswllt. | |
| 6 | Creu fideo | Trefnu trwy'r Uned Gyfathrebu i greu fideo byr o wahanol gynghorwyr wrth eu gwaith yn y gymuned ac yn y Cyngor a gosod ar y gwahanol gyfryngau cymdeithasol (Facebook, Snapchat, Instagram, U-tube). | Uned Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Rheolaidd |
| 7 | Hyrwyddo ymwybyddiaeth Amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy ddyddiau dathlu e.e.<br>• Diwrnod Rhyngwladol y Ferch<br>• Diwrnod Rhyngwladol Democratiaeth / [International Day of Democracy]() | Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Ferch gan ystyried cyraeddiadau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol menywod, heddiw ac yn y gorffennol.<br><br>Cynnal cystadlaethau: "Ffotograffiaeth Democratiaeth ar Ymgysylltu i Newid " a "Rhannu eich Llais" | Grwpiau gwleidyddol<br>Cynghorau Ysgolion<br>Prifysgol Bangor<br>Coleg Menai Llandrillo | 8 Mawrth yn flynyddol<br><br>15 Medi yn flynyddol |
| HYRWYDDO PLANT A PHOBL IFANC I GYMRYD RHAN MEWN DEMOCRATIAETH | | | | |
| Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc y Cyngor | | | | |
| 8 | Cynnwys plant a phobl ifanc ym mhrif waith y Cyngor | Gellid ystyried y materion isod:<br>• Gwahodd pobl ifanc i roi barn ar | Y Cyngor/ Panel Cyflawni Rhaglen Plant a Phobl Ifanc | Parhaus |

DRAFT

# RHAGLEN WAITH – HYBU AMRWYIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | brif ddogfennaeth y Cyngor yn y Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc a chyfarfodydd eraill (cyfarfod nesaf ar 17 Tachwedd 2015)<br>• Gwahodd a chynnwys pobl ifanc yn nhrafodaethau Pwyllgorau Craffu ac Ymchwiliadau Craffu ar faterion perthnasol<br>• Gwahodd pobl ifanc i gyfarfodydd Y Cyngor a'r Cabinet pan fo materion perthnasol dan ystyriaeth.<br>• Gwahodd disgyblion Ysgolion Uwchradd i'r Siambr i gyflwyno cyflwyniadau ar eu syniadau gwella gwasanaethau. | (d/o Arweinydd Cabinet) | |
| 9 | Sefydlu cyfryngau ar gyfer yr ieuenctid i gael cyfle i gymryd rhan yn nemocratiaeth | Gellid ystyried y materion isod:<br>• Sefydlu Cyngor Ieuenctid<br>• Sefydlu Cabinet a Maer<br>• Cynnal Senedd yr Ifanc<br>• Cynrychiolwyr y Cyngor Ieuenctid i fynychu cyfarfodydd Panel Rhianta Corfforaethol<br>• Tîm Cyfathrebu'r Cyngor gyda grwpiau o bobl ifanc ar gyfer ymgysylltu / cyfranogi. | Economi a Chymunedau<br><br><br><br><br><br>Tîm Cyfathrebu | ……..<br><br><br><br><br><br>Parhaus |
| 10 | Clybiau Ieuenctid | Cynnwys sesiynau democrataidd yn rhaglenni'r clybiau. Er enghraifft, codi ymwybyddiaeth am drefniadau democrataidd y wlad a chynnal sesiynau ffug e.e. | Y Gwasanaeth Ieuenctid<br>Mudiad Ffermwyr Ifanc<br>ac eraill | Rheolaidd |

DRAFT

# RHAGLEN WAITH – HYBU AMRWYIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | - etholiadau<br>- cyfarfodydd gyda chadeirydd ac is-gadeirydd er rhoi profiad o ddemocratiaeth i Blant a Phobl Ifanc<br>- codi ymwybyddiaeth am wefan Partneriaeth Gwynedd a Môn (Gwynedd Ni) a'r cyfleoedd swyddi sydd ar gael / gwirfoddoli ar fudiadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau ac ymddiriedolaethau lleol. | | |
| 11 | Rôl Ysgolion Uwchradd | Gellid ystyried yr isod:<br>• Aelodau Seneddol yn ymweld ag ysgolion uwchradd i roi sgwrs ar ddemocratiaeth<br>• Cynnal etholiadau ffug<br>• Adborth blynyddol i'r Adran Addysg ar y digwyddiadau democrataidd. | Ysgolion | Rheolaidd |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc | | | | |
| 12 | Defnyddio Partneriaeth Gwynedd a Môn i wella cyfranogaeth ar draws y maes plant a phobl ifanc.<br><br>(Mae Partneriaeth Gwynedd a Môn yn helpu i arwain y gwaith cydweithio yn yr ardal.<br>Mae'r bartneriaeth yn cael ei | Gellid ystyried yr isod:<br><br>• Galluogi pob Cyngor Ysgol i gysylltu â'i gilydd fel y gallant gynnal etholiadau ffug.<br><br>• Sicrhau bod myfyrwyr/pobl ifanc Prifysgol Bangor a Choleg Menai Llandrillo yn cael cyfle i gyfranogi | Partneriaeth Gwynedd a Môn | ……..<br><br><br>Parhaus |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | arwain gan arweinwyr sector gyhoeddus a gwirfoddol yr ardal gan gynnwys y Cynghorau Sir, Prifysgol Bangor, Coleg Menai, Heddlu'r Gogledd a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r arweinwyr yma yn cwrdd yn rheolaidd yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol). | e.e. Cynghorau Tref a Chymuned ac amrywiol gyrff allanol. | | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **24ain Tachwedd 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Siarter Aelodau – swydd ddisgrifiadau** |
| **PWRPAS** | **Adrodd ar ddiweddariad o'r sefyllfa ar gyfer ennill Siarter Aelodau.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. ARGYMHELLIAD

1.1 Argymhellir gweithredu mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd i swyddogion sicrhau eglurder o'r sefyllfa gyfredol a'i glymu gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cymwyseddau o fewn y Cyngor. Yn ail, adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn er mwyn sefydlu grwp bychan o Gynghorwyr i edrych ar y gwaith o ennill y Siarter i Gyngor Gwynedd, gan gychwyn gyda'r gwaith ar y swydd ddisgrifiadau.

## 2. CYFLWYNIAD

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cofio fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi llunio Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Datblygwyd y Siarter ar ei newydd wedd yn 2012/13 sy'n adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Yn annatod felly, mae nifer fawr o elfennau o waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn clymu gyda gofynion y Siarter.

2.2 Adroddwyd i'r Pwyllgor ar 10fed o Fawrth, 2015, na fyddai modd i Gyngor Gwynedd ennill cymhwyster y Siarter gan na fyddai neb ar gael i'w dyfarnnu yn dilyn newid a lleihad yn grant CLlLC.

2.3 Bellach, mae wedi dod yn hysbys fod y sefyllfa yma wedi newid, ac felly rydym yn awyddus i barhau i fwrw ati i geisio ennill y Freinlen.

## 3. GWAITH I'W WNEUD

3.1 Mae nifer o wahanol elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau fod Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus yn ennill y Freinlen. Un o'r materion cyntaf sydd angen sylw yw datblygu swydd ddisgrifiadau ar gyfer Aelodau etholedig mewn 'swyddi' penodol.

3.2 Mae gwaith wrthi'n mynd heibio i edrych ar swydd ddisgrifiadau yn gyfredol, gan edrych ar gymwyseddau ar gyfer staff ac Aelodau yr un pryd.

3.3 Mae nifer o swydd ddisgrifiadau ar gyfer Aelodau yn eu gwahanol rolau yn bodoli eisoes. Fe dderbynniodd pob aelod gopi yn eu pecyn croeso ar ddechrau'r Cyngor newydd, ynghyd â'r llyfryn 'Cyfrifoldeb a Disgwyliadau Aelodau Etholedig' sy'n cynnwys

- Disgrifiad o rộl a chyfrifoldebau cyffredinol Aelodau Etholedig, a
- Fframwaith Cymwyseddau ac Ymddygiad

3.4 Er mwyn llunio'r uchod, sefydlwyd Grwp Ffocws o gynghorwyr i ddod ynghyd i ddrafftio'r swydd ddisgrifiadau a'r cymwyseddau. Bu i'r Grwp wedyn gyfeirio'r materion er sylw i Fwrdd y Cyngor cyn i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu yn 2011.

3.5 Bu’r ffordd uchod o weithredu yn llwyddiannus gan fod perchnogaeth gan aelodau o’r swydd ddisgrifiadau a’r cymwyseddau cyn iddynt gael eu mabwysiadu gan y Cyngor Llawn.

3.6 Argymhellir felly mai’r cam cyntaf yw i swyddogion sicrhau ein bod yn glir o pa swydd ddisgrifiadau sy’n bodoli a chlymu hynny hefo’r gwaith sy’n mynd rhagddo o ran datblygu cymwyseddau ymhellach. Argymhellir wedyn ein bod yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn er mwyn sefydlu grwp bychan o Gynghorwyr i edrych ar y gwaith o ennill y Siarter i Gyngor Gwynedd, gan gychwyn gyda’r gwaith ar y swydd ddisgrifiadau.